Atodiad B: Trefniadau Rhanbarthol

Mae Gwynedd yn arwain ar ran y rhanbarth, ac er bod y pwyslais ar benderfyniadau lleol, mae angen cydlynu cymaint â phosibl er mwyn gwneud y mwyaf o effeithlonrwydd a chyfleoedd i fudd-ddeiliaid wneud cais am gyllid ar ôl-troed sengl neu aml-ALl. Yn y cyfamser, mae ymholiadau pwysig angen eu hateb gan Lywodraeth y DU sy'n gwneud cynllunio ymlaen llaw yn heriol.

Fel mae pethau'n sefyll, dyma'r amserlen:

Erbyn 24 Ionawr: Cyhoeddi Prosbectws Rhanbarthol er mwyn hysbysu ymgeiswyr posibl o'r broses, blaenoriaethau rhanbarthol a lleol. Agor gwahoddiadau i ymgeisio am gyllid o £250,000 a mwy, i brosiectau sy'n cynnwys un neu fwy o Siroedd, i gynnwys ceisiadau i gynnal Cronfeydd Allweddol (a thrwy hynny bydd prosiectau llai yn cael eu darparu).

17 - 24 Chwefror (i'w gadarnhau): Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau Cam 1.

Chw/Maw: Grwpiau Partneriaeth Lleol i adolygu'r ceisiadau perthnasol a gwneud argymhellion i'r bobl fydd yn gwneud y penderfyniadau (sef y Cabinet yn Sir Ddinbych).

Cyflawni diwydrwydd dyladwy ar y prosiectau a argymhellir yn dilyn penderfyniad y Cabinet. Ar gyfer ceisiadau sy'n cynnwys mwy nac un sir, bydd y diwydrwydd dyladwy yn cael ei gyflawni gan y Tîm Rhanbarthol. Ar gyfer pob un arall, bydd y diwydrwydd dyladwy yn cael ei gyflawni yn lleol.

Felly, mae'r dyddiad lle bydd y papurau yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet i wneud penderfyniad yn anhysbys ar hyn o bryd gan ei fod yn dibynnu ar nifer o ffactorau mewnol ac allanol.

Mae terfynau amser yn heriol i bawb: ar gyfer y bartneriaeth, yn ogystal â'r ymgeiswyr llwyddiannus ac mae gwaith yn cael ei gyflawni i gefnogi prosesau esmwyth. Er enghraifft, er nad yw'r ffurflen gais ar-lein yn barod i fynd yn fyw tan 24 Ionawr, bydd Canllawiau manwl o'r broses yn cael ei gyhoeddi ar yr wythnos sy'n dechrau ar 16 Ionawr, a fydd yn rhoi amser i'r ymgeiswyr posibl ddechrau datblygu eu ceisiadau. Yn ogystal â hynny, mae gwaith yn digwydd er mwyn i nifer o Gronfeydd Allweddol gael eu lansio yn sydyn, er mwyn galluogi i'r broses rhannu cyllid ddigwydd mor gyflym ac effeithlon â phosibl. Mae gwefan Sir Ddinbych yn cael ei ddiweddaru gyda gwybodaeth ar y dull, ac ar y meysydd sy'n flaenoriaeth ar gyfer y Sir.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.